OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2016 Rhif 119 (Cy. 56)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Ffin Sirol Sir Benfro/Sir Ceredigion, Man Ger Aberteifi i Aberaeron, Ceredigion) (Cyfyngiadau Cyflymder Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2016

Gwnaed	*25 Ionawr 2016*
Yn dod i rym	*1 Chwefror 2016*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abergwaun – Bangor (yr A487) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Chwefror 2016. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Ffin Sirol Sir Benfro/Sir Ceredigion, Man Ger Aberteifi i Aberaeron, Ceredigion) (Cyfyngiadau Cyflymder Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2016.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:
ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys; a

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—
(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb,

neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period")* yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 08:00 o'r gloch ar 1 Chwefror 2016 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod o'r gwaith eu symud ymaith;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" *("the length of the trunk road*") yw'r darn o gefnffordd yr A487 yn Sir Ceredigion sy'n ymestyn o ffin sirol Sir Benfro/Sir Ceredigion, yn gyfagos i'r annedd o'r enw Gamallt, man i'r de o Aberteifi, i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain hyd at ganolbwynt ei chyffordd â'r A482 yn Aberaeron;

ystyr "lluoedd arbennig" *("special forces")* yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Cyfyngiadau a Gwaharddiad

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 5 yn weithredol.

Atal Dros Dro

7. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darn perthnasol o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 drwy hyn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 3, 4 a 5 yn weithredol.

Cymhwyso

8. (1) Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau a'r gwaharddiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

9. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 25 Ionawr 2016

Richard Morgan
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi.
(2) Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.